# Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd – CYHOEDDUS

## COFNODION, PENDERFYNIADAU A CHAMAU GWEITHREDU I'W CYMRYD

09:30 – 12:15 | 21/01/2025 | MS Teams

| | |
|---|---|
| Cadeirydd | Marian Wyn Jones |

| Yn Bresennol (Aelodau) | | Teitl | Sefydliad |
|---|---|---|---|
| Marian Wyn Jones (Cadeirydd) | MW-J | Aelod Annibynnol, Cadeirydd | IGDC |
| Alistair Klaas Neill | AKN | Aelod Annibynnol, Is-gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd | IGDC |
| Ruth Glazzard | RG | Aelod Annibynnol, Is-gadeirydd y Bwrdd | IGDC |
| Marilyn Bryan Jones | MB-J | Aelod Annibynnol | IGDC |
| Yn bresennol | | | |
| Julie Ash | JA | Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol | IGDC |
| Henry Bales | HB | Arbenigwr Atal Twyll Lleol Arweiniol | Caerdydd a'r Fro |
| David Butler | DB | Rheolwr Archwilio | Archwilio Mewnol PCGC |
| Stephen Chaney | StC | Dirprwy Bennaeth Archwilio Mewnol | Archwilio Mewnol PCGC |
| Nathan Couch | NC | Arweinydd Archwilio Perfformiad | Archwilio Cymru |
| Mark Cox | MC | Cyfarwyddwr Cyswllt Cyllid | IGDC |
| Chris Darling | CD | Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol \| Ysgrifennydd y Bwrdd | IGDC |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Paul Evans | PE | Pennaeth Cydymffurfiaeth Ansawdd a Rheoleiddio | IGDC |
| Carwyn Lloyd Jones | CLJ | Prif Swyddog Cwmwl | IGDC |
| Chris Moreton | CM | Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid a Sicrwydd Busnes | IGDC |
| Samantha Morgan | SM | Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol | IGDC |
| Claire Osmundsen-Little | CO-L | Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid | IGDC |
| Julie Robinson | JR | Cydlynydd Llywodraethu Corfforaethol | IGDC |
| Laura Tolley | LT | Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol \| Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd | IGDC |
| Mike Whiteley | MW | Arweinydd Perfformiad Archwilio | Archwilio Cymru |

| Arsylwi | | | |
|---|---|---|---|
| Tomos Jones | | | Archwilio Cymru |
| Ymddiheuriadau | | | |
| Michelle Sell | MS | Cyfarwyddwr Rhaglenni ac Ymgysylltu | IGDC |
| Julie Francis | JF | Pennaeth Gwasanaethau Masnachol | IGDC |

| Acronymau | | | |
|---|---|---|---|
| IGDC | Iechyd a Gofal Digidol Cymru | AS | Archwilio a Sicrwydd |
| AIA | Awdurdod Iechyd Arbennig | DPIF | Cronfa Fuddsoddi Blaenoriaethau Digidol |
| BAF | Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd | PCGC | Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru |
| DSPP | Gwasanaethau Digidol ar gyfer | PSPP | Perfformiad Talu'r Sector |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Cleifion a'r Cyhoedd | | Cyhoeddus |
| AED | Adeiladu ein Dyfodol | | |

| Rhif yr Eitem | Eitem | Canlyniad | Cam Gweithredu |
|---|---|---|---|
| 1 | MATERION RHAGARWEINIOL | | |
| 1.1 | **Croeso a Chyflwyniadau**<br>Croesawodd y Cadeirydd, Marian Wyn Jones, bawb i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd.<br>Rhoddwyd croeso arbennig i'r rhai oedd yn bresennol ar gyfer eitemau penodol ar yr agenda.<br>Cynhaliwyd y cyfarfod trwy Microsoft Teams ac atgoffwyd y rhai a oedd yn bresennol bod y cyfarfod yn cael ei recordio ac y byddai'n cael ei bostio ar wefan IGDC yn dilyn y cyfarfod. | Nodwyd | Dim i'w nodi |
| 1.2 | **Ymddiheuriadau am Absenoldeb**<br>• Julie Francis, Pennaeth Gwasanaethau Masnachol<br>• Michelle Sell, Cyfarwyddwr Rhaglenni ac Ymgysylltu | Nodwyd | Dim i'w nodi |
| 1.3 | **Datganiadau o Fuddiannau**<br>Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau i'w nodi. | Nodwyd | Dim i'w nodi |
| 2 | AGENDA CYDSYNIO – I'W CHYMERADWYO | | |
| 2.1 | Cofnodion heb eu cadarnhau o gyfarfod 15 Hydref 2024 – Cyhoeddus a Phreifat Cryno.<br>**Penderfynodd** y Pwyllgor:<br>**GYMERADWYO'R** cofnodion fel cofnod cywir o'r drafodaeth a fyddai ar gael i'r cyhoedd. | Cymeradwywyd | Dim i'w nodi |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2.2 | **Adroddiad Sicrwydd Pwyllgor Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru**<br>**Penderfynodd** y Pwyllgor:<br>**NODI** Adroddiad Sicrwydd Pwyllgor Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru | Nodwyd | Dim i'w nodi |
| 2.3 | **Blaengynllun Gwaith**<br>**Penderfynodd** y Pwyllgor:<br>**NODI** cynnwys Blaengynllun Gwaith y Pwyllgor. | Nodwyd | Dim i'w nodi |
| 2.4 | **Adroddiad Safonau Ymddygiad**<br>**Penderfynodd** y Pwyllgor:<br>**NODI'R** Adroddiad Safonau Ymddygiad | Nodwyd | Dim i'w nodi |
| 2.5 | **Adroddiad Cylchlythyr Iechyd Cymru**<br>**Penderfynodd** y Pwyllgor:<br>**NODI'R** Adroddiad Cylchlythyr Iechyd Cymru | Nodwyd | Dim i'w nodi |
| 2.6 | **Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd**<br>**Penderfynodd** y Pwyllgor:<br>**NODI** Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd. | Nodwyd | Dim i'w nodi |
| 2.7 | **Hunanasesiad o Effeithiolrwydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd**<br>**Penderfynodd** y Pwyllgor:<br>**NODI** Hunanasesiad o Effeithiolrwydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd | Nodwyd | Dim i'w nodi |
| 2.8 | **Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd**<br>**Penderfynodd** y Pwyllgor:<br>**GYMERADWYO** Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd | Cymerad wywyd | Dim i'w nodi |
| 2.9 | **Cylch Busnes y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd**<br>**Penderfynodd** y Pwyllgor:<br>**GYMERADWYO** Cylch Busnes y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd | Cymerad wywyd | Dim i'w nodi |
| RHAN 3 – BUSNES Y CYFARFOD | | | |
| 3.1 | **Cofnod Gweithredu**<br>Nododd y Pwyllgor fod tri cham gweithredu wedi'u | Nodwyd | Dim i'w nodi |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | nodi o'r cyfarfod diwethaf, a'u bod i gyd wedi'u cwblhau a'u dogfennu yn y Cofnod Gweithredu.<br>**Penderfynodd** y Pwyllgor:<br>**NODI** statws y Cofnod Gweithredu. | | |
| RHAN 4 | ARCHWILIO AC ATAL TWYLL | | |
| 4.1 | **Adroddiad Cynnydd yr Archwiliad Mewnol**<br>Cyflwynodd Stephen Chaney (StC), Dirprwy Bennaeth Archwilio Mewnol, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, Gynllun Cynnydd yr Archwiliad Mewnol.<br>Darparodd StC yr uchafbwyntiau o'r adroddiad cynnydd gan gynghori'r canlynol:-<br>• Roedd cynnydd da yn cael ei wneud ar weddill yr archwiliadau ar gyfer 2024/25, gyda nifer o adolygiadau ar y gweill. Byddai cwblhau'r adolygiadau hyn yn dod â chynllun 2024/25 i ben.<br>• Roedd cynllun 2025/26 wedi dechrau a bydd yn cael ei rannu yn y cyfarfod nesaf.<br>• Roedd tri adolygiad gorffenedig ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod hwn.<br>Hysbyswyd y Pwyllgor fod yr adolygiad archwilio a ychwanegwyd yn y sesiwn breifat ddiwethaf wedi'i gwblhau i raddau helaeth ac y byddai'n cael ei gyflwyno i'r cyfarfod nesaf.<br>**Penderfynodd** y Pwyllgor:<br>**NODI'R** diweddariad Archwilio Mewnol er **SICRWYDD**. | Er Sicrwydd | Dim i'w nodi |
| 4.2 | **Adroddiad yr Adolygiad Archwilio Mewnol**<br>Darparodd StC drosolwg lefel uchel o'r tri adolygiad archwilio:<br>**Cenhadaeth Un – Gwasanaethau Cwmwl**<br>Cafodd yr adolygiad sgôr Sicrwydd ***Sylweddol***.<br>Darparodd StC grynodeb lefel uchel o'r canfyddiadau:<br>• Roedd strategaeth Cwmwl dda a chlir ar waith.<br>• Ychydig o adrodd a gafwyd ar gynnydd y strategaeth a chodwyd argymhelliad | Er Sicrwydd | |

ynghylch hyn.

- Canfuwyd risgiau a oedd yn cynnwys rheoli risgiau fel rhan o'r broses rheoli risgiau. Roedd hyder bod y risgiau hyn yn cael eu rheoli'n briodol.
- Nodwyd bwlch posibl yn y cyllid ar gyfer y strategaeth wrth symud ymlaen a chodwyd argymhelliad ynghylch hynny, ond yn gyffredinol roedd dull da o weithredu'r strategaeth.
- Roedd matrics sgiliau wedi'i sefydlu, gydag uwchsgilio o fewn y sefydliad.
- Roedd y strategaeth Cwmwl wedi'i sefydlu'n briodol, gyda threfniadau diogelwch a rheoli data ar waith.
- Nid oedd unrhyw beth arwyddocaol i'w nodi ac roedd cynnydd da yn cael ei wneud a disgwylir i hynny barhau.

Trafododd y Pwyllgor y galw cynyddol ar y gwasanaeth Cwmwl a'r ffordd y mae'n dod yn rhan ganolog o weithrediadau ac a oedd hyn wedi'i ystyried o safbwynt ôl troed carbon. Cadarnhaodd Carwyn Lloyd Jones (CLJ), Prif Swyddog Cwmwl, fod y canolfannau data yn defnyddio mwy o ynni ond eu bod yn fwy ecogyfeillgar. Nid oedd Canolfan Ddata 2 mor effeithlon o ran ynni felly roedd y goblygiadau carbon wedi'u hystyried yn yr achos busnes.

Parhaodd y drafodaeth ynghylch llywodraethu a sicrhau bod y Pwyllgor yn gweld yr adrodd/lefelau cywir, ynghyd ag ystyriaeth o'r hyn a adroddwyd i'r Pwyllgor Cyflawni Rhaglenni (PDC), h.y. ni ddylai gymryd adolygiad archwilio i lywio'r hyn y dylai'r sefydliad ei adolygu. Rhoddwyd sicrwydd i'r Pwyllgor fod proses sgorio ar waith ar gyfer penderfynu beth oedd yn mynd i'r PDC i'w oruchwylio a bod y penderfyniad wedi'i wneud cyn canfyddiadau'r archwiliad yn seiliedig ar yr achos busnes a gymeradwywyd gan y Bwrdd.

Cadarnhaodd Chris Darling (CD), Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol/Ysgrifennydd y Bwrdd, fod Cylch Gorchwyl y PDC yn nodi y bydd ystyriaeth o'r hyn a gyflwynir i'r pwyllgor yn cael ei adolygu o leiaf unwaith y flwyddyn ac efallai y byddai'n werth codi'r pwynt hwn yn y cyfarfod nesaf pan fydd y

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Cylchoedd Gorchwyl yn cael eu hadolygu.<br><br>Cenhadaeth Pump - Datblygu Staff<br><br>Cafodd yr adolygiad sgôr Sicrwydd *Rhesymol*.<br><br>Cadarnhaodd StC bod bwlch sylweddol ar gyfer gwelliant, er bod yr adolygiad wedi derbyn sicrwydd Rhesymol. Roedd rhywfaint o brofion ychwanegol i benderfynu a oedd yr amcanion yn cael eu gwreiddio drwy ddulliau eraill. Yn gyffredinol, mae hyn yn digwydd, a dyna pam y rhoddwyd sicrwydd Rhesymol.<br><br>Croesawodd Samantha Morgan, Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol, yr archwiliad, gan gydnabod yr hyn a amlygwyd fel rhywbeth i'w ddysgu gyda chamau gweithredu i'w cymryd. Roedd angen i'r tîm roi sicrwydd eu bod yn cyflawni a bod ganddynt yr adnoddau i wneud hynny. Roedd darn o waith wedi'i gomisiynu i sicrhau bod y gwaith yn cael ei wneud, ond roedd adnoddau/capasiti yn parhau i fod yn broblem. Roedd cynllun gweithredu wedi'i roi ar waith i sicrhau y byddai'r holl gamau gweithredu'n cael eu cyflawni yn unol â'r amserlen. Rhoddwyd sicrwydd i'r Pwyllgor fod y gwaith eisoes ar y gweill felly roedd yr ymrwymiad i'r dyddiadau yn rhesymol.<br><br>Rhoddodd Claire Osmundsen-Little (CO-L), Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid, rywfaint o sicrwydd bod y Tîm yn POD yn cael ei gefnogi trwy gyllid ar gyfer adnoddau.<br><br>CAM GWEITHREDU 20250121 – A01 Dod yn ôl at yr adolygiad archwilio ar Ddatblygu Staff i fesur ac ystyried y cynnydd a wnaed yn erbyn yr argymhellion a amlinellwyd yn yr archwiliad.<br><br>Sicrwydd Ystadau – Rheoli Ynni<br><br>Cafodd yr adolygiad sgôr Sicrwydd *Rhesymol*.<br><br>Darparodd David Butler, Arweinydd Archwilio, PCGC, grynodeb o'r canfyddiadau allweddol:<br><br>• Roedd y cynnydd mewn costau ynni wedi codi'r proffil risg yn y maes hwn ac felly comisiynwyd yr archwiliad i adolygu'r mesurau lliniaru risg a'r rheolaeth ar y costau hyn. Roedd y rhain yn cynnwys gweithredu contract ynni cenedlaethol newydd a oedd wedi'i gymhwyso.<br>• Yr agweddau allweddol a adolygwyd oedd:- | | CAM GWEI-THREDU 20250121 – A01 Dod yn ôl at yr adolygiad archwilio ar Ddatblygu Staff i fesur ac ystyried y cynnydd a wnaed yn erbyn yr argym-hellion a amlinellwyd yn yr archwiliad. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Gweithredu'r contract cenedlaethol, gwirio data, a monitro ac adrodd.<br>• Cyflwynodd y newid i gontract newydd yn 2023 rai problemau, gan gynnwys anawsterau wrth ddarparu rhagolygon ynni cywir. Fodd bynnag, nid oedd effaith rhai o'r materion cenedlaethol hyn mor sylweddol yn IGDC o gymharu â sefydliadau eraill ledled Cymru.<br>• Roedd defnydd ynni yn IGDC yn ymwneud yn bennaf â'r defnydd yn y ddwy ganolfan ddata. Roedd costau ynni swyddfa wedi gostwng i 38% ers y llynedd.<br>• Roedd IGDC wrthi'n mynd i'r afael â'r materion craidd i leihau'r defnydd o ynni.<br>• Roedd y profion archwilio o daliadau'r canolfannau data yn foddhaol, ond roedd rhywfaint o anghysondeb rhwng darlleniadau mesuryddion ac anfonebu mewn perthynas â thaliadau swyddfa.<br>• Roedd y rheolwyr wedi cytuno i adolygu'r rhesymau dros yr anghysondebau hyn.<br>• Dylid defnyddio fforwm craffu penodol fel y Fforwm Datgarboneiddio ar gyfer adrodd ar y defnydd o ynni.<br><br>Cadarnhaodd Julie Ash (JA), Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol, fod yr ymarfer yn ddefnyddiol i adolygu rhai o'r prosesau, ac roedd hi'n cytuno â'r sylw y dylid gwneud adrodd ar y defnydd o ynni yn fwy ffurfiol. Mae Ystadau'n parhau i resymoli deiliadaeth swyddfeydd a chyn bo hir byddant yn cyflwyno ap archebu newydd a fydd yn eu galluogi i wybod pwy sydd ar y safle, pryd a ble.<br><br>O ran y contractau, hysbyswyd y Pwyllgor fod IGDC ar gontract Cymru Gyfan y mae PCGC yn gyfrifol am ei negodi ar ran GIG Cymru. Yn ogystal, cymerwyd defnydd o ynni o weithio gartref i ystyriaeth gan ddefnyddio fformiwla benodol sy'n rhagdybio bod rhywun arall yn debygol o fod yn y tŷ.<br><br>Ychwanegodd Mark Cox (MC), Cyfarwyddwr Cyswllt Cyllid, fod opsiynau eraill yn bodoli o ran y contract. Roedd grŵp trafod wedi'i sefydlu i weithredu fel un llais ac roedd wedi mynd drwy'r | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | broses yn ddiweddar i benderfynu pa gontract oedd y gorau.<br><br>Penderfynodd y Pwyllgor:<br><br>DDERBYN y tri adolygiad archwilio er SICRWYDD. | | |
| 4.3 | Diweddariad gan Bwyllgor Archwilio Cymru<br><br>Cyflwynodd Nathan Couch a Mike Whiteley o Archwilio Cymru ddiweddariad Archwilio Cymru, gyda'r uchafbwyntiau canlynol:<br><br>• Roedd yr adroddiad yn rhoi diweddariad ar y cyfrifon cyfredol ac arfaethedig ac ar y gwaith archwilio perfformiad. Trosolwg o archwiliadau ac astudiaethau perthnasol eraill gan yr Archwilydd Cyffredinol a dogfennau corfforaethol perthnasol a gyhoeddwyd gan Archwilio Cymru ers y cyfarfod diwethaf.<br><br>• Diweddariad ar yr archwiliad Cyfrifon: roedd y gwaith cynllunio ar gyfer yr archwiliad o ddatganiadau ariannol 2024-25 i ddechrau'n fuan ac roedd yr adroddiad ar Systemau TG a Letyir yn Genedlaethol wedi'i gynnwys yn y papurau preifat.<br><br>• Archwiliad perfformiad – roedd Adroddiad Archwilio Blynyddol 2024 wedi'i gynnwys ar agenda'r cyfarfod.<br><br>• Roedd adolygiad o drawsnewid digidol i fod i ddechrau ym mis Chwefror. I IGDC, bydd yr adolygiad yn cael ei rannu'n ddwy ran. Bydd y rhan gyntaf yn canolbwyntio ar y trefniadau trawsnewid digidol mewnol a'r ail ar rôl yr AIA fel arweinydd system ar gyfer y GIG ehangach yng Nghymru.<br><br>• Roedd gwaith maes ar gyfer yr adolygiad lleol o drefniadau Ymgysylltu â Rhanddeiliaid wedi dod i ben ac roedd yr adroddiad yn cael ei ddrafftio.<br><br>Dywedodd CD y cytunwyd yn y pwyllgor diwethaf i wneud gwaith dilynol ynghylch "Digidol yn ôl Dyluniad": yr adolygiad o drawsnewid digidol awdurdodau lleol a'r hyn a ddysgwyd o hynny, ac roedd Archwilio Cymru wedi cytuno i fynychu Cyfarfod Datblygu'r Bwrdd ym mis Chwefror i roi adborth ar hyn. | Er Sicrwydd | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Adroddiad Blynyddol Archwilio Cymru<br><br>Cyflwynodd Nathan Couch a Mike Whiteley (MW), Rheolwr Archwilio, adroddiad ar y cyd gan roi'r uchafbwyntiau canlynol:-<br><br>• Aeth archwiliad y cyfrifon yn dda, gyda'r agwedd aeddfed o gydweithio rhwng Archwilio Cymru ag IGDC.<br>• Cyflwynwyd datganiadau ariannol o ansawdd uchel ar ffurf drafft ac fe'u hategwyd gan bapurau gwaith cynhwysfawr a helpodd i sicrhau bod yr archwiliad yn mynd rhagddo'n ddidrafferth.<br>• Rhoddwyd barn ddiamod ar y datganiadau ariannol ac ni nodwyd unrhyw wendidau perthnasol mewn rheolaethau mewnol.<br>• Cyhoeddwyd barn afreoleidd-dra ddiamod hefyd.<br>• Rhoddwyd crynodeb o faterion yn adroddiad ISA 260; er bod nifer o ddiwygiadau i'r datganiadau ariannol, dim ond un a effeithiodd ar y sefyllfa ariannol, sef gostyngiad mewn gwariant o £14,000 yn ymwneud â Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol, Contractau Systemau a Gwasanaethau.<br><br>Darparodd NC uchafbwyntiau'r archwiliad perfformiad:-<br><br>• Canfu'r Asesiad Strwythuredig drefniadau, cefnogaeth a llywodraethu Corfforaethol da. Yn ogystal, canfuwyd defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau. Fodd bynnag, roedd angen yn awr defnyddio ei strategaeth hirdymor.<br>• Er mwyn dangos ei werth a chryfhau ei safle fel galluogwr arweinydd system ddigidol yn y GIG. Canfu'r adolygiad arbed costau fod gan IGDC drefniadau cadarn ar y cyfan ar gyfer nodi, cyflawni a monitro cyfleoedd i wella costau. Fodd bynnag, roedd angen i'r sefydliad symud ymlaen yn gyflym â'r gwaith ar y rhaglen drawsnewid Adeiladu ein Dyfodol i leihau ei ddibyniaeth ar arbedion anghylchol.<br><br>Dywedodd MC wrth y Pwyllgor fod ffocws wedi'i roi | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ar gyflawni arbedion rheolaidd eleni a bod yr elfen Canfod Gwerth Ychwanegol hefyd yn cael ei symud ymlaen.<br><br>Trafododd y Pwyllgor y ffioedd ar gyfer y flwyddyn nesaf a chytunwyd ar ôl ystyried bod y cynnydd yn adlewyrchiad teg o'r pwysau a welwyd o ganlyniad i ofynion archwilio. Gofynnwyd i Archwilio Cymru ddarparu ffi'r flwyddyn flaenorol er mwyn gallu gwneud cymhariaeth.<br><br>Cadarnhaodd NC fod yr holl adroddiadau wedi'u derbyn gan y Pwyllgor yn flaenorol felly byddai'r adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd AIA ar ddiwedd y mis i'w nodi.<br><br>Diolchodd y Pwyllgor i Archwilio Cymru am y sylwadau canmoliaethus a wnaed am IGDC ac roedd y Pwyllgor yn falch o nodi'r berthynas waith ragorol rhwng y ddau sefydliad.<br><br>**CAM GWEITHREDU 20250121-A02** Archwilio Cymru i gynnwys ffi'r flwyddyn flaenorol yn yr adroddiad er eglurder.<br><br>**Penderfynodd** y Pwyllgor:<br><br>**DDERBYN** Diweddariad Archwilio Cymru er **SICRWYDD** a **NODI** Adroddiad Blynyddol Archwilio Cymru. | | **CAM GWEITHREDU 20250121-A02** Archwilio Cymru i gynnwys ffi'r flwyddyn flaenorol yn yr adroddiad er eglurder. |
| 4.4 | **Traciwr Camau Gweithredu Archwilio**<br><br>Cyflwynodd Laura Tolley (LT), Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol, y Traciwr Camau Gweithredu Archwilio.<br><br>Roedd y Cofnod Gweithredu Archwilio yn cynnwys cyfanswm o 25 o gamau gweithredu ar ôl derbyn tri adolygiad yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor. Nodwyd yr ystyriwyd bod 13 o'r rhain wedi'u cwblhau, roedd 11 ar y trywydd iawn i'w cwblhau, nid oedd yr un ohonynt nad oedd ar y trywydd iawn i'w gwblhau, ac roedd un wedi pasio'r dyddiad gweithredu. Roedd pump o'r camau gweithredu hyn yn gamau gweithredu preifat a byddai papur adroddiad sy'n amlinellu'r sefyllfa yn cael ei drafod yn y cyfarfod preifat.<br><br>Roedd un cam gweithredu a oedd yn hwyr ac a oedd angen ymateb gan yr Arweinydd Gweithredol. Daeth y cam gweithredu hwn o Asesiad Strwythuredig 2023 ac roedd ar gyfer | Nodwyd | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Cyllid a Sicrwydd Busnes. Ers cyhoeddi'r papurau, roedd y gwaith ar y cam hwn wedi'i gwblhau, a darparwyd diweddariad gan y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid.<br><br>Trafododd y Pwyllgor ei fod yn teimlo nad oedd dyddiad gorffen i'r cam gweithredu ac y dylai'r rhan fwyaf o'r pethau sy'n ymwneud â chyllid fod yn goch gan eu bod y tu hwnt i reolaeth IGDC. Yn hytrach, dylai'r ffocws fod ar sut y mae IGDC yn mynegi ei gynnig gwerth, a oedd yn ddarn parhaus o waith.<br><br>Trafododd y Pwyllgor sut y gallai'r Pwyllgor a'r sefydliad olrhain cynnydd yn erbyn y cam gweithredu heriol hwn, o ystyried bod cymaint y tu hwnt i'w reolaeth. Cadarnhawyd y gellid, yn y tymor byr, ei gau trwy fantoli'r cyfrifon, gan y byddai hyn yn dangos y gwerth a'r buddion a gynigir. Yn ogystal, bydd adolygiad llywodraethu manwl yn diffinio rôl IGDC ac yn rhoi mwy o eglurder ar rôl a swyddogaethau IGDC. Mae trafodaethau'n parhau, fel rhan o'r CTCI, ynghylch beth yw gweithgareddau craidd IGDC a'u bod yn cael eu hadlewyrchu felly ac nid fel dyraniad blynyddol.<br><br>Fel rhan o'r camau a gymerwyd i geisio dod â'r cam gweithredu hwn i ben, cadarnhaodd CD fod cynaliadwyedd ariannol wedi'i gynnwys ar agenda'r Pwyllgor fel eitem sefydlog, a oedd yn un o'r camau gweithredu yn Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd. Awgrymwyd y byddai'n ddefnyddiol cynnal archwiliad dwfn ar y llythyr cylch gwaith, wedi iddo dod i law, i ddeall y goblygiadau.<br><br>CAM GWEITHREDU: 20250121-A03 Unwaith y byddai'r llythyr Cylch Gwaith wedi dod i law, byddai'r Pwyllgor yn cynnal archwiliad dwfn o oblygiadau'r llythyr. Roedd hyn i'w ychwanegu at y blaengynllun.<br><br>Penderfynodd y Pwyllgor:<br><br>NODI statws y Traciwr Camau Gweithredu Archwilio. | | CAM GWEITH-REDU: 20250121-A03 Unwaith y byddai'r llythyr Cylch Gwaith wedi dod i law, byddai'r Pwyllgor yn cynnal archwiliad dwfn o oblyg-iadau'r llythyr. Roedd hyn |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | i'w ychwan-egu at y blaengyn-llun. |
| 4.5 | **Adroddiad Diweddaru ar Atal Twyll Lleol**<br><br>Derbyniodd y Pwyllgor yr Adroddiad Diweddaru Atal Twyll Lleol ar gyfer chwarter 3.<br><br>Tynnodd Henry Bales, Pennaeth Atal Twyll, sylw at y gwaith a wnaed yn ystod y cyfnod:<br><br>• Parhau i gynnal a datblygu cronfa ddata gynhwysfawr o weithgareddau lleol a phlatfform digidol Atal Twyll. Anogwyd yr aelodau i ymweld â'r wefan.<br><br>• Hyrwyddo ac Ymwybyddiaeth a Gweithgarwch Addysg<br><br>Ymsefydlu corfforaethol – dim ond un sesiwn a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod hwn.<br><br>E-ddysgu – roedd y lefel cydymffurfiaeth hyfforddiant atal twyll yn 96.4% ar draws IGDC.<br><br>Hyrwyddwyd Wythnos Ryngwladol Ymwybyddiaeth Twyll ar SharePoint ym mis Tachwedd.<br><br>• Atal<br><br>Ymarfer Rhagweithiol/Gwaith Risg Lleol – ni chanfuwyd unrhyw broblemau yn ystod y gwiriadau prawf.<br><br>Y Fenter Twyll Genedlaethol – dim ond 12 o gyfatebiadau sy'n dod drwy'r system; roedd disgwyl adroddiadau eraill a byddai diweddariadau'n cael eu darparu.<br><br>• Atgyfeiriadau ac Ymchwiliadau<br><br>Derbyniwyd pedwar atgyfeiriad yn ystod y cyfnod hwn: dau yn ymwneud â'r bwletinau deallusrwydd a'r ddau arall wedi'u codi i ymchwiliadau ffurfiol.<br><br>• Gordaliadau Cyflog Sylweddol – ni adroddwyd am unrhyw ordaliadau.<br><br>Trafododd y Pwyllgor dwyll a oedd yn ymwneud ag absenoldeb o'r gwaith a chadarnhawyd bod y | Nodwyd | Dim i'w nodi |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | gweithdrefnau'n aml yn rhedeg ochr yn ochr, h.y. bod rhywfaint o'r gwaith ymchwilio yn cael ei wneud gan yr Uned Atal Twyll tra bod y timau POD yn sicrhau llesiant staff yn ystod y cyfnod ymchwilio.<br><br>Roedd y Pwyllgor yn falch o weld y gyfradd uchel o gydymffurfiaeth ar hyfforddiant Atal Twyll gan IGDC, a oedd dros 96%.<br><br>**Penderfynodd** y Pwyllgor:<br><br>**NODI'R** Adroddiad Cynnydd Atal Twyll | | |
| RHAN 5 | ADRODDIADAU LLYWODRAETHU | | |
| 5.1 | **Adroddiad Archeb Prynu Gwerth Uchel a Chronnus**<br><br>Cyflwynodd Mark Cox, Cyfarwyddwr Cyswllt Cyllid, yr Adroddiad Archeb Prynu Gwerth Uchel a Chronnus ar gyfer y cyfnod 1 Hydref i 31 Rhagfyr 2024, gan roi'r uchafbwyntiau a ganlyn:<br><br>• Codwyd naw archeb gwerth uchel o fwy na £0.75m y manylwyd arnynt yn yr adroddiad.<br>• Roedd saith cyflenwr wedi cyrraedd y trothwy archebion cronnus o dros £0.750m<br><br>Hysbyswyd y Pwyllgor am y mater allweddol a oedd yn codi o ran cefnogi'r targedau i'w cyflawni ar gyfer y sefydliad:-<br><br>• Roedd y GIG yn gweithredu fel sefydliad corfforaethol i negodi gyda chyflenwyr a lleihau costau ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.<br>• Roedd dwy archeb i adnewyddu Citrix a VMWare wedi'u gwthio drwodd ac yn pontio blynyddoedd cyllid hyd fis Hydref 2027.<br>• Roedd yna archeb sylweddol i gefnogi'r gwaith o fudo meddygfeydd teulu.<br><br>**Penderfynodd** y Pwyllgor:<br><br>**NODI** Diweddariad yr Adroddiad Archeb Prynu Gwerth Uchel a Chronnus | Nodwyd | Dim i'w nodi |
| 5.2 | **Colledion a Thaliadau Arbennig – diweddariad ar lafar**<br><br>Darparodd MC ddiweddariad ar lafar ar Golledion a | Nodwyd | Dim i'w nodi |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Thaliadau Arbennig, gan gadarnhau y bydd adroddiad i'r sesiwn breifat ar ddatgomisiynu gwasanaethau.<br><br>**Penderfynodd** y Pwyllgor:<br><br>**NODI'R** diweddariad ar lafar ar Golledion a Thaliadau Arbennig | | |
| 5.3 | Cynaliadwyedd Ariannol IGDC<br><br>**Cyllideb 2025-26**<br><br>Cyflwynodd MC yr adroddiad ar Gynaliadwyedd Ariannol IGDC i'r Pwyllgor, a oedd yn cynnwys cynlluniau'r Gyllideb ar gyfer 2025-26, gan amlygu'r canlynol:<br><br>• Y nod oedd llunio proffil costau a phroffil cynaliadwyedd pum mlynedd ehangach a thymor hwy.<br>• Roedd 1.5 biliwn ychwanegol mewn adnoddau a chyfalaf o gymharu â'r rhagdybiaethau cyllidebol blaenorol.<br>• Mae angen o leiaf 2% o arbedion ar draws y cyfanswm gwariant sylfaenol.<br>• Roedd cyllid llinell sylfaen wedi'i ddyrannu ar gyfer effaith gylchol dyfarniad cyflog 24/25 felly ni fydd yn creu unrhyw bwysau cost yn y flwyddyn nesaf.<br>• Cytunwyd yn ddiamwys ar godiad o 1.77% ar gyfer cytundebau gofal iechyd rhwng comisiynwyr a darparwyr. Cynhaliwyd cyfarfod gyda'r Cyfarwyddwyr Cyllid lle nodwyd y rhagdybiaethau. Roedd yn ofynnol cadarnhau'n ysgrifenedig i Judith Paget erbyn 28 Chwefror 2025 fod cytundebau yn eu lle gyda Chyrff Iechyd ar gyfer 2025-26. Y llynedd bu her o ran llofnodi'r CLGau ond cadarnhawyd eleni bod fframwaith a chyfarwyddeb gan Lywodraeth Cymru a ddylai sicrhau nad yw'r Byrddau Iechyd yn oedi. Wedi buddsoddi amser mewn perthnasoedd i ddangos tryloywder pwysau costau, y sefyllfa a'r gwerth a grëir ar eu cyfer yn y system.<br>• Roedd cynnydd o £115m mewn cyfalaf arferol, a £60m ar gyfer IFRS 16. | Nodwyd | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • Y camau nesaf: y ddyletswydd statudol i fantoli'r cyfrifon. Sicrhau bod y cynllun yn cael ei driongli rhwng Cyllid, Gweithlu a chyflawni gweithredol.<br>Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth o'r sleidiau manwl. I grynhoi, bydd IGDC yn edrych ar werth trwy nifer o lensys ac yn cymryd y camau canlynol:<br>• Tynnu allan y costau a fydd yn gwella effeithlonrwydd.<br>• Creu gwerth trwy gydweithio a chyd-gynhyrchu.<br>• Symleiddio'r bensaernïaeth a dileu'r ddibyniaeth ar drwyddedau mewn cysylltiad â rhai o'r contractau allweddol.<br>• Symud i fodel darparu sy'n seiliedig ar gynnyrch a chreu'r sgiliau yn IGDC i leihau dibyniaeth ar drydydd partïon.<br>• Bydd canolfannau data a symud i fodel gweithredu sy'n seiliedig ar y Cwmwl yn gwella effeithlonrwydd o ran data.<br>• Symud o ofynion cyllid cyfalaf i ofyniad cyllid refeniw.<br>Derbyniodd y Pwyllgor sicrwydd pellach ynghylch cyllid a disgwylid y byddai IGDC yn derbyn cyllid ychwanegol, gan godi i £74m. Byddai trosglwyddiad o gyllidebau ar wahân i'r cyllid craidd, gyda thros £5.9m yn cael ei drosglwyddo i'r craidd.<br>CAM GWEITHREDU 20250121-A04 Ailedrych ar y camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r amrywiad direswm yn y nifer sy'n manteisio ar wasanaethau IGDC.<br>Penderfynodd y Pwyllgor:<br>NODI'R diweddariad ar gynllun Cyllideb a Chynaliadwyedd Ariannol IGDC ar gyfer 2025-26. | | CAM GWEITHREDU 20250121-A04 Ailedrych ar y camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r amrywiad direswm yn y nifer sy'n manteisio ar wasanaethau |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | IGDC. |
| 5.4 | **Y Gofrestr Risg Gorfforaethol**<br><br>Rhoddodd Chris Darling (CD), Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol/Ysgrifennydd y Bwrdd, ddiweddariad ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol:<br><br>• 13 risg, gyda thair o'r rheiny wedi'u neilltuo i'r Pwyllgor hwn. (Cymryd yr hyn a ddywedodd CD am archwiliad dwfn ar y model risg cynaliadwy)<br><br>• Nodwyd y newidiadau ym mhroffil risg y sefydliad yn ystod y cyfnod adrodd, o ganlyniad i un risg newydd yn cael ei hychwanegu a chwech yn cael eu tynnu oddi ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol.<br><br>• Derbyniwyd diweddariad ar y tair risg a bennwyd i'r Pwyllgor hwn:-<br><br>DHCW0313 Pwysau Cost Digidol – Newidiadau i Fodelau Gwasanaeth. Bydd yr Achos Busnes yn cael ei adolygu eto a bydd trafodaethau pellach ar y sgôr a all arwain at israddio'r sgôr.<br><br>DHCW0331 Cyllid Adnoddau Cyfnod Penodol. Roedd y camau lliniaru na fyddent yn cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru yn cael eu hadolygu. Byddai'r sgorau risg yn cael eu hadolygu a gellid lliniaru'r elfen risg ariannol. Roedd elfen o hyblygrwydd o ran sut y gellid cyfeirio'r cyllid.<br><br>DHCW0337 Gwasanaethau Digidol Cynaliadwy a Model Ariannu Datblygu. Yn gysylltiedig â model ariannu cynaliadwy.<br><br>Roedd chwe risg wedi'u dileu ers y cyfarfod diwethaf ac ychwanegwyd un risg newydd:-<br><br>DHCW0340 Systemau a Gwasanaethau Meddygon Teulu, system a ddarparwyd gan drydydd parti ac a oedd i'w thynnu'n ôl (Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol). Mae aelodau'r Bwrdd yn ymwybodol o'r sefyllfa bresennol. Roedd yn sefyllfa annisgwyl a dylai gwybodaeth bellach fod ar gael erbyn yr wythnos | Nodwyd | Dim i'w nodi |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | nesaf.<br><br>**Penderfynodd** y Pwyllgor:<br>**DRAFOD** y Gofrestr Risg Gorfforaethol | | |
| 5.5 | **Adroddiad Cydymffurfiaeth Caffael a Chynllun Dirprwyo**<br>Cyflwynodd Chris Moreton (CM), Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid, yr adroddiad ar Gydymffurfiaeth Caffael a'r Cynllun Dirprwyo. Tynnwyd sylw at y canlynol o'r adroddiad:-<br>• Roedd dau Gam Tendr Sengl yn ystod y cyfnod hwn gwerth £163,349.82 yn ymwneud â chontractau meddalwedd.<br>• Un achos Rheoli Newid y tu allan i delerau eu cytundebau contractiol gwerth £175,000. Roedd hyn er mwyn ymestyn y ddarpariaeth ar gyfer gwasanaethau ymgynghori masnachol ar gyfer caffael strategol a chymhleth.<br>**Penderfynodd** y Pwyllgor:<br>**NODI'R** Adroddiad Cydymffurfiaeth Caffael a Chynllun Dirprwyo | Trafodwyd | Dim i'w nodi |
| 5.6 | **Adroddiad Diweddaru Cydymffurfiaeth Ansawdd a Rheoleiddio**<br>Cyflwynodd Paul Evans, Pennaeth Ansawdd a Rheoleiddio, yr Adroddiad Diweddaru Cydymffurfiaeth Ansawdd a Rheoleiddio, gan roi'r uchafbwyntiau canlynol:<br>**Archwilio**<br>• Cynhaliwyd tri archwiliad allanol yn ystod y cyfnod diwethaf.<br>• Roedd archwiliad y Sefydliad Desgiau Gwasanaeth (SDI) yn yr arfaeth o hyd.<br>• O fewn yr archwiliadau roedd un achos bychan o ddiffyg cydymffurfio, 13 o Gyfleoedd i Wella (OIP)/sylwadau, a chafodd 20 o ganfyddiadau heb eu cwblhau eu cau'n llwyddiannus o'r archwiliadau blaenorol.<br>• Archwilio Mewnol – parhaodd y rhaglen archwilio ar sail risg i gyflawni cyfradd | Nodwyd | Dim i'w nodi |

gwblhau o 100% yn erbyn y targed o gynnal dau archwiliad y mis.

- Y Strategaeth Rheoli Dogfennau (DMS) ac iPassport gyfredol. Parhaodd y sefydliad i reoli dogfennau'n llwyddiannus ar iPassport. Y sefyllfa ddogfennau ar iPassport oedd 94%.
- Ni fu unrhyw newidiadau pellach gan yr MHRA mewn perthynas â deddfwriaeth dyfeisiau meddygol a oedd wedi'i addo cyn gwyliau'r Nadolig.

Diweddariad ar y Ddyletswydd Ansawdd

- Cynhaliwyd cyfres o weithdai ar draws Uwch Dîm Arwain y Gyfarwyddiaeth a byddai crynodeb o'r gweithdai hynny yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad Ar Waith Bob Amser nesaf.
- Parhau i gymryd rhan yn y Grŵp Dyletswydd Ansawdd cenedlaethol. Ar hyn o bryd roedd y grŵp yn gweithio ar offeryn hunanasesu i sefydliadau asesu eu hunain yn erbyn y Ddyletswydd Ansawdd.
- Cafodd y fframwaith Dyletswydd Ansawdd a oedd yn cael ei ddatblygu ei gyflwyno i gydweithwyr cyn y Nadolig. Roedd rhai newidiadau wedi'u gwneud yn dilyn y cyflwyniad hwn. Roedd y gwaith yn cael ei adolygu ar hyn o bryd ac yn dilyn hyn, bydd ymgysylltu ehangach yn digwydd.
- Fframwaith Gwella Ansawdd – parhau i ddarparu hyfforddiant Gwelliannau 5 Munud.
- Mynychodd 110 o gydweithwyr TENTalk ym mis Rhagfyr.
- Roedd sesiwn wedi'i threfnu ar gyfer cyfarfod Datblygu'r Bwrdd yn y dyfodol.

Canmolodd y Pwyllgor y tîm ar y gwaith a wnaed ar y matrics ansawdd mewnol dros y flwyddyn ddiwethaf. Hysbyswyd y Pwyllgor fod ymgysylltu â Phartneriaid Busnes Ansawdd y Cyfarwyddiaethau wedi galluogi'r gwaith i leihau'r diffyg cydymffurfio o ran rheoli dogfennau.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **Penderfynodd** y Pwyllgor:<br><br>**NODI'R** Adroddiad Diweddaru ar Gydymffurfiaeth Ansawdd a Rheoleiddio a'r Diweddariad ar y Ddyletswydd Ansawdd. | | |
| 5.7 | **Adroddiad Ystadau, Datgarboneiddio a Chydymffurfiaeth**<br><br>Cyflwynodd Julie Ash, Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol, yr Adroddiad Ystadau, Datgarboneiddio a Chydymffurfiaeth i'r Pwyllgor er gwybodaeth.<br><br>• Roedd yr holl adroddiadau i Lywodraeth Cymru yn gyfredol.<br>• Mae IGDC yn cyflwyno ffurflen allyriadau a naratif yn flynyddol.<br>• Roedd contract wedi'i ddyfarnu ar gyfer gwaith i addasu'r gofod ar gyfer cynadledda, dylunio sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr a chynhwysiant digidol yn swyddfa Tŷ Glan-yr-Afon (TGA) yng Nghaerdydd. Roedd rheolwr prosiect wedi'i benodi i oruchwylio'r gwaith hwn.<br>• Roedd mwy o ddefnydd yn cael ei wneud o Barc Bocam ac roedd cyfleusterau parcio cerbydau trydan newydd wedi'u gosod.<br>• Castlebridge 2 – ni fydd y brydles yn cael ei hadnewyddu ym mis Mawrth.<br>• Derbyniwyd cynnig prydles newydd ar gyfer TGA i redeg o 1 Ebrill 2025. Roedd y gofod swyddfa'n cael ei rannu gyda Chonffederasiwn GIG Cymru a Thechnoleg Iechyd Cymru.<br>• Bu gostyngiad o 57% yn yr ôl troed carbon o gymharu â llinell sylfaen 2019/20, ac roedd hyn yn cynnwys y gadwyn gyflenwi.<br>• Roedd cydymffurfiaeth gyffredinol systemau ac offer bellach yn 99%, ymhell ar y blaen i'r targed o 90%.<br>• Mae'r PPM Mewnol yn parhau i fod ar 100%, ymhell ar y blaen i'r targed o 90%.<br><br>**Penderfynodd** y Pwyllgor:<br><br>**NODI'R** Adroddiad Ystadau, Datgarboneiddio a Chydymffurfiaeth er **SICRWYDD.** | Nodwyd | Dim i'w nodi |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 5.8 | **Adroddiad yr Iaith Gymraeg**<br><br>Cyflwynodd LT Adroddiad yr Iaith Gymraeg, a oedd yn rhoi diweddariad ar y gwaith a wnaed ers y cyfarfod diwethaf:-<br><br>O ran Sgiliau Cymraeg presennol, roedd gan IGDC bellach 50.7% o staff â sgiliau lefel 1-5. Roedd yr aelodau'n ymwybodol bod IGDC yn cynnig cyfleoedd i ddysgu Cymraeg am ddim drwy'r Ganolfan Dysgu Cymraeg. Cynigir hefyd diwtora 1:1 gyda Choleg Cambria a lansiwyd cynllun mentora i fagu hyder staff. Roedd cwrs newydd i fod i gael ei lansio gan Lywodraeth Cymru, ond ni fydd yn orfodol ei gwblhau ar y Cofnod Staff Electronig (ESR), oherwydd yr heriau o ran monitro cwblhau'r cwrs ar y system.<br><br>Mae IGDC wedi bod yn gweithio gyda WIDI i ddatblygu gwefan newydd GIG Cymru i rannu arferion gorau o ran y Gymraeg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Maent bellach yn cydweithio â Llywodraeth Cymru i lansio a hyrwyddo hyn.<br><br>O ran risgiau, tynnwyd sylw'r Pwyllgor at ddau faes: un oedd y rhyngwyneb Cymraeg ar gyfer mewngofnodi i Ap GIG Cymru. Nododd y Pwyllgor yn yr adroddiad fod GIG Lloegr wedi dweud bod y gwaith hwn wedi'i ohirio tan Haf 2025. Ymgysylltwyd â Chomisiynydd y Gymraeg ar hyn. Bydd y risgiau, y cwynion a'r pryderon ynghylch hyn yn parhau i gael eu monitro.<br><br>Nid oedd yr ail risg wedi'i chynnwys yn yr adroddiad oherwydd yr amseru, ond roedd hi'n ymwneud â chydymffurfio â Safonau Gweithredol, yn benodol o ran y Ddesg Wasanaeth. Ar hyn o bryd, dim ond dau Ddadansoddwr y Ddesg Wasanaeth sy'n rhugl yn y Gymraeg sydd gan IGDC ac mae'r ddau ar gyllid cyfnod penodol tan ddiwedd mis Mawrth 2025. Gan nad oes estyniad cyllid wedi ei gadarnhau, mae IGDC yn debygol o golli'r ddau ddadansoddwr os na eir i'r afael â hyn. Roedd gwaith yn mynd rhagddo gyda'r Gyfarwyddiaeth Gweithrediadau i liniaru'r risg hon. Roedd angen sicrhau bod cynllunio priodol ar gyfer olyniaeth, a chynllunio'r gweithlu yn strategol yn y maes hwn hefyd, yn enwedig wrth i ni baratoi i ddod o dan Safonau'r Gymraeg yn ffurfiol ar ddiwedd y flwyddyn galendr hon.<br><br>**Penderfynodd** y Pwyllgor: | Nodwyd | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | NODI Adroddiad yr Iaith Gymraeg. | | |
| RHAN 6 | MATERION I GLOI | | |
| 6.1 | **Adroddiad Crynhoi Cynnydd y Pwyllgor i'r Bwrdd**<br>• Risgiau'r Iaith Gymraeg – Colli dau Ddadansoddwr sy'n rhugl yn y Gymraeg oherwydd diffyg cyllid<br>• Adolygiadau archwilio mewnol<br>• Adolygiad blynyddol Archwilio Cymru<br>• Adroddiad Ariannol<br>• Adroddiad cydymffurfiaeth Ansawdd a Rheoleiddio<br>• Datgarboneiddio a chydymffurfio<br>• Adroddiad Archwilio Blynyddol Archwilio Cymru a'r adborth cadarnhaol a dderbyniwyd. | Trafodwyd | Dim i'w nodi |
| 6.2 | **Unrhyw Faterion Brys eraill**<br>Ni chodwyd unrhyw faterion brys eraill i'w nodi. | Nodwyd | Dim i'w nodi |
| 6.3 | **Dyddiad ac Amser y Cyfarfod Nesaf:**<br>• 08 Ebrill 2025 | Nodwyd | Dim i'w nodi |